WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol 2014-15

# Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Cyhoeddwyd: Awst 2015
Cyfeirnod y ddogfen: 426A2015



Paratowyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Steve Barry and Ron Price o dan gyfarwyddyd Jane Holownia.


**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**


Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, sef bwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac er mwyn monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol ac yn asesu cydymffurfiaeth â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yn anelu at ddarparu adroddiadau cymesur sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd ar stiwardiaeth adnoddau cyhoeddus a thrwy wneud hynny, feithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliant.

# Cynnwys


Adroddiad cryno 4

Diben yr adroddiad hwn 4

Gwaith Archwilio Perfformiad yn 2014-15 5

Penawdau – crynodeb o'r prif ganfyddiadau 6

Cynigion ar gyfer Gwella 7

Adroddiad manwl 8

Mae'r Awdurdod yn rheoli ei gyllid yn dda, mae wedi gweithredu newidiadau sydd wedi gwella ei ddefnydd o adnoddau ac mae ganddo drefniadau digonol ar gyfer ymdrin â heriau yn y dyfodol 8

Mae gan yr Awdurdod drefniadau rheoli cyllid effeithiol 10

Mae arbedion effeithlonrwydd wedi eu cyflawni drwy ad-drefnu'r gweithlu, ac er yr arweinyddiaeth a'r cyfarwyddyd clir, mae cyfyngiadau o ran y dogfennau sydd ar gael wedi gwanhau gallu'r Awdurdod i werthuso a defnyddio gwersi a ddysgwyd ar gyfer y dyfodol 12

Mae systemau sydd wedi ymsefydlu'n dda yn cynhyrchu gwybodaeth reoli gywir, a ddefnyddir i fod o gymorth i gynllunio gwelliannau, er bod yna rai bylchau yn y wybodaeth am gydraddoldeb 16

Er y gellid nodi rhai gwelliannau yn 2012-13 roedd Comisiynydd y Gymraeg o'r farn bod y datblygiadau wedi pallu yn ystod 2013-14 18

Atodiadau

Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn 19

Atodiad 2 – Archwiliad o Gynllun Gwella 2014-15 Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru 20

Atodiad 3 – Archwiliad o asesiad o berfformiad 2013-14 Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru 22

Atodiad 4 – Llythyr Archwilio Blynyddol 24

# Adroddiad cryno

## Diben yr adroddiad hwn

1 Bob blwyddyn, mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol archwilio trefniadau cynllunio ac adrodd ar welliant cynghorau, awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru, ac asesu a fydd pob awdurdod yn cyflawni dyletswyddau statudol yn ymwneud â gwelliant parhaus[1]. Cyflawnwyd y gwaith hwn ar ran yr Archwilydd Cyffredinol gan staff Swyddfa Archwilio Cymru. Mae Atodiad 1 yn rhoi rhagor o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol.

2 Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol hwn yn crynhoi'r gwaith archwilio a gyflawnwyd o fewn Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (yr Awdurdod), ers i'r adroddiad diwethaf o'r fath gael ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2014.

3 Gan ystyried y gwaith a gyflawnwyd yn ystod 2014-15, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi, yn yr adroddiad hwn, a yw o'r farn y bydd yr Awdurdod yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2015-16.

4 Ni ddylid ystyried bod y datganiad hwn yn rhoi barn bendant am sefyllfa sefydliad nac yn rhagfynegi ei lwyddiant yn y dyfodol. Yn hytrach, dylid ystyried ei fod yn rhoi barn am y graddau y mae'r trefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd yn rhesymol gadarn i'r graddau y gellir nodi hynny ar sail y gwaith a gyflawnwyd.

5 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost atom yn info@archwilio.cymru neu ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

1 Nodir y dyletswyddau a'r gofynion ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur).

## Gwaith Archwilio Perfformiad yn 2014-15

6 Wrth bennu'r amrywiaeth o waith a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn, gwnaethom ystyried graddau'r wybodaeth archwilio ac arolygu a gasglwyd yn ogystal â ffynonellau eraill o wybodaeth a oedd ar gael, gan gynnwys systemau adolygu a gwerthuso'r Awdurdod ei hun. Yn ystod 2014-15, gwnaethom gyflawni gwaith asesu gwelliant o dan y themâu a ganlyn: y defnydd o adnoddau; llywodraethu; a pherfformiad.

7 Nodir y gwaith a gyflawnwyd ers yr Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf isod:

| Enw'r Prosiect | Disgrifiad byr | Dyddiadau [pryd y cyflawnwyd y gwaith] |
|---|---|---|
| Archwiliad 'Cynllun Gwella' Blynyddol | Adolygiad o gynlluniau cyhoeddedig yr Awdurdod ar gyfer cyflawni amcanion gwella. | Mehefin 2014 |
| Asesiad Cynllunio Ariannol | Adolygiad o sefyllfa ariannol yr Awdurdod a sut y mae'n cyllidebu ac yn darparu'r cynilion gofynnol. | Tachwedd 2014 |
| Archwiliad 'Asesu Perfformiad' Blynyddol | Adolygiad o asesiad perfformiad cyhoeddedig yr Awdurdod, gan gynnwys profi a dilysu gwybodaeth am berfformiad. | Tachwedd 2014 |
| Adolygiad Ansawdd Data | Asesiad o ddibynadwyedd gwybodaeth ac effeithiolrwydd ei defnyddio wrth reoli perfformiad. | Tachwedd 2014 |
| Cyflawni â Llai – ad-drefnu'r gweithlu | Asesu'r modd y mae'r Awdurdod yn rheoli'r gwaith o ddarparu gwasanaethau yng nghyd-destun adnoddau gostyngedig. | Mawrth 2015 |

8 Yn seiliedig ar, ac yn gyfyngedig i, y gwaith a gyflawnwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, mae'r Archwilydd Cyffredinol o'r farn bod yr Awdurdod yn debygol o gydymffurfio â gofynion y Mesur yn ystod 2015-16.

## Penawdau – crynodeb o'r prif ganfyddiadau

9 Mae'r tabl isod yn crynhoi prif ganfyddiadau adroddiadau a gyhoeddwyd ers yr Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf gan Swyddfa Archwilio Cymru, a chanlyniad yr adolygiad o Gynllun yr Iaith Gymraeg gan Gomisiynydd y Gymraeg.

| | |
|---|---|
| Archwilio cyfrifon | Rhoesom farn archwilio ddiamod ar eich datganiadau cyfrifyddu a sefyllfa ariannol a thrafodion y Gronfa Bensiwn ar 29 Medi 2014. Mae hyn yn golygu bod yr Awdurdod wedi cydymffurfio â'i gyfrifoldebau yn gysylltiedig â chyflwyno adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau ac mae'r cyfrifon yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol yr Awdurdod. |
| Archwilio trefniadau cynllunio ac adrodd ar welliant | Gwnaethom gyhoeddi tystysgrifau yn nodi bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan y Mesur (gweler Atodiadau 2 a 3). |
| Asesiad cynllunio gwelliannau | Mae gan yr Awdurdod drefniadau rheolaeth ariannol effeithiol. |
| Defnyddio adnoddau | Mae arbedion effeithlonrwydd wedi eu cyflawni trwy ad-drefnu'r gweithlu ac er bod arweinyddiaeth a chyfarwyddyd eglur wedi bod, mae cyfyngiadau ar y dogfennau sydd ar gael wedi gwanhau gallu'r Awdurdod i werthuso a defnyddio'r gwersi ar gyfer y dyfodol. |
| Dibynadwyedd a defnydd o Wybodaeth am Berfformiad | Mae systemau sydd wedi ymwreiddio'n dda yn cynhyrchu gwybodaeth reoli gywir a ddefnyddir i gefnogi'r gwaith o gynllunio gwelliannau ond mae rhai bylchau'n bodoli yn y wybodaeth am gydraddoldeb. |
| Comisiynydd y Gymraeg – Adolygiad o'r Cynllun Iaith Gymraeg | Mae'r Awdurdod yn gweithio'n gadarnhaol ar ei Gynllun Iaith Gymraeg i wella ei wasanaeth yn yr iaith Gymraeg. |

10 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod a'r heriau y mae'n eu hwynebu, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

a wneud cynigion ar gyfer gwella – os caiff cynigion eu gwneud i'r Awdurdod, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd;

b gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella – os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud, mae'n rhaid i'r Awdurdod baratoi ymateb i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod gwaith;

c cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi adroddiad a gwneud argymhellion; ac

ch argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd.

11 Yn ystod y flwyddyn, ni wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol unrhyw argymhellion ffurfiol. Fodd bynnag, ceir materion â llai o flaenoriaeth, sef cynigion ar gyfer gwella, yn ein hadroddiadau eraill a chyfeirir atynt yn y tabl isod. Byddwn yn parhau i fonitro cynigion ar gyfer gwella yn ystod ein gwaith asesu gwelliant.

## Cynigion ar gyfer Gwella

| Cynigion ar gyfer Gwella | |
|---|---|
| C1 | Datblygu'r trefniadau presennol trwy:<br>• sefydlu Cynllun Ariannol Tymor Canolig ffurfiol wedi ei alinio â darpariaeth Cynllun Strategol 2015-2020;<br>• sefydlu polisi eglur ynglŷn â chodi tâl am wasanaethau a chreu incwm;<br>• sefydlu cysylltiadau cryfach rhwng yr amcanion gwella a'r cynlluniau ariannol; a<br>• chytuno ar bolisi ar y lefelau disgwyliedig o gronfeydd wrth gefn. |
| C2 | Mabwysiadu a gweithredu egwyddorion rheoli prosiect sy'n galluogi'r Awdurdod i ddangos:<br>• asesiad cyn gweithredu o'r buddion a fwriedir;<br>• rheoli risg yn effeithiol cyn gweithredu ac yn ystod gweithrediad; a<br>• gwerthusiad ôl-weithredu o'r canlyniadau o gymharu â'r buddion a gynlluniwyd. |

## Adroddiad manwl

Mae'r Awdurdod yn rheoli ei gyllid yn dda, mae wedi gweithredu newidiadau sydd wedi gwella ei ddefnydd o adnoddau ac mae ganddo drefniadau digonol ar gyfer ymdrin â heriau yn y dyfodol



12 Mae Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (yr Awdurdod) yn cynnwys 25 o aelodau sy'n cynrychioli Cynghorau sy'n cwmpasu ardaloedd Sir Gaerfyrddin (pum aelod), Ceredigion (dau aelod), Castell-nedd Port Talbot (pedwar aelod), Sir Benfro (tri aelod), Powys (pedwar aelod) ac Abertawe (saith aelod). Penderfynir ar nifer y cynrychiolwyr o bob Cyngor gan boblogaeth yr ardal honno.

13 Mae'r Awdurdod yn gwasanaethu 893,949 o bobl (cyfrifiad 2011) mewn ardal ddaearyddol o 4,500 o filltiroedd sgwâr. Darperir y gwasanaeth trwy 58 o orsafoedd gan gyflogi 1,200 o staff. Ym mis Mawrth 2014 apwyntiodd yr Awdurdod Brif Swyddog Tân newydd a dechreuodd broses o ad-drefnu ei dîm rheoli a oedd yn eu swyddi erbyn mis Mai 2015.

14 Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r Awdurdod wedi bod yn ymateb i'r heriau ariannol y mae'r gwasanaethau cyhoeddus yn eu hwynebu gan sicrhau cydymffurfiad â'i gyfrifoldebau statudol. Yn hwyrach yn yr adroddiad hwn rydym yn nodi rhai o'r dulliau y mae hyn wedi ei wneud. Mae'r Awdurdod wedi cyhoeddi ei Gynllun Corfforaethol ar gyfer 2015-20 hefyd yn nodi ei amcanion ar gyfer y bum mlynedd nesaf, ac mae hwn yn ogystal â'i gynlluniau ar gyfer sbarduno arbedion yn y dyfodol a gwybodaeth ynglŷn â pherfformiad ar gael ar ei wefan.

## Tystiolaeth 1: Gwariant refeniw gwirioneddol 2011-12 i 2013-14

| | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 |
|---|---|---|---|
| Alldro refeniw (£,000) | 45,139 | 44,003 | 45,187* |
| Fesul pen o'r boblogaeth | £51 | £49 | £50 |

*Yn cynnwys £169,296 o gostau untro sy'n gysylltiedig â gweithredu diwydiannol

Ffynhonnell: Ystadegau Cymru Llywodraeth Cymru

15 Er bod y ffigyrau yn y Dystiolaeth yn awgrymu cynnydd mewn gwariant rhwng 2011-12 a 2013-14 pan ystyrir pwysau o ganlyniad i chwyddiant, mewn termau real mae gostyngiad o £1,654,000[2] wedi bod mewn gwariant cyffredinol. Mae gostyngiad o £881,000 mewn termau real wedi bod yn y costau staff a nodir yn natganiadau cyfrifon yr Awdurdod ar gyfer 2011-12, 2012-13 a 2013-14 dros y cyfnod. Gan ddefnyddio'r dadansoddiad 'termau real' hwnnw i wariant fesul pen y boblogaeth, mae'r gostyngiad o £51 y pen o'r boblogaeth yn 2011-12 i £50 y pen o'r boblogaeth yn 2013-14 mewn gwirionedd yn ostyngiad o £3 y pen o'r boblogaeth mewn termau real dros y cyfnod.

16 Mae'r Awdurdod wedi pennu cyllideb refeniw o £43,522,194 ar gyfer 2014-15.

2 Fel y'u mesurwyd gan ddatchwyddyddion Cynnyrch Domestig Gros y Trysorlys a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2015.

# Mae gan yr Awdurdod drefniadau rheoli cyllid effeithiol

## Roedd yr Awdurdod yn cydymffurfio â'i gyfrifoldebau o ran cyflwyno adroddiadau ariannol

17 Ar 5 Ionawr 2014, cyflwynodd yr Archwilydd Cyffredinol Lythyr Archwilio Blynyddol i'r Awdurdod. Mae'r llythyr yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'i gyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel yr Archwilydd Penodedig a'i gyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio. Rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn archwilio ddiamod ar ddatganiadau cyfrifyddu'r Awdurdod gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion yr Awdurdod a'r Gronfa Bensiwn. Mae'r Llythyr Archwilio Blynyddol ar gael yn Atodiad 4 o'r adroddiad hwn.

## Mae gan yr Awdurdod hanes da o reoli ei gyllideb yn effeithiol ac o sicrhau trefniadau i weithredu oddi mewn i'w gyfyngiadau ariannol

18 Rhwng 2011-12 a 2013-14, cadwodd yr Awdurdod reolaeth effeithiol ar y gyllideb, gan gynnwys asesiadau amserol o'r opsiynau y gallai'r Awdurdod eu gweithredu er mwyn cadw'r gyllideb yn gytbwys. Cefnogir trefniadau rheoli'r gyllideb gan ganllawiau manwl a threfniadau monitro ar lefel swyddog ac aelod, ac ar lefel weithredol. Mae'r rhagolygon ariannol wedi'u datblygu'n dda ac yn fanwl gywir, ac yn destun craffu a herio manwl ac effeithiol yng nghyfarfodydd yr Awdurdod.

19 Mae'r Awdurdod wedi dangos parodrwydd i ystyried newid radical o ran darparu gwasanaeth. Mae wedi llwyddo i ad-drefnu'r criwiau, wedi darparu cyfarpar ymateb gwledig (cerbydau llai, ysgafnach sy'n galluogi criwiau i gyrraedd lleoliadau gwledig anghysbell), ac wedi sicrhau arbedion llai mewn meysydd fel costau uwch reoli, llogi ceir a goramser achlysurol. Gan mai'r elfen fwyaf o ran cost o fewn yr Awdurdod yw ei gyflogeion, dyma'r maes lle gwireddwyd y mwyaf o arbedion. Er enghraifft, mae ad-drefnu criwiau ym Mhontardawe wedi creu gostyngiad o £400,000 mewn costau cyflogeion bob blwyddyn ers 2012. Mae'r broses o weithredu newidiadau i'r criwiau wedi bod yn her i'r Awdurdod.

20 Yn ystod y cyfnod a drafodir yn yr adroddiad hwn, mae'r Awdurdod wedi pennu cyllideb gytbwys, gydag ond ychydig o amrywiadau i unrhyw un o benawdau'r gyllideb. Mae a wnelo'r elfen fwyaf o ran cost â chostau cyflogeion, a thrwy gyllidebu'n ddoeth yn y maes hwn, mae'r Awdurdod wedi gallu tanwario yn erbyn ffigurau gwreiddiol y gyllideb. Mae lefelau isel o godiadau cyflog, a gytunwyd drwy negodi ar raddfa genedlaethol, hefyd wedi galluogi'r Awdurdod i gynllunio a chytuno ar gyllidebau mewn modd effeithiol.

21 Ers canol 2013, mae'r Awdurdod wedi wynebu heriau mewn anghydfod cenedlaethol sy'n ymwneud yn bennaf â'r newidiadau a gynigiwyd gan y Llywodraeth i drefniadau pensiwn diffoddwyr tân. Oherwydd hyn, mae'r Awdurdod wedi gorfod rhoi trefniadau ar waith i gynnal gwasanaethau yn ystod y cyfnodau o weithredu diwydiannol, sydd wedi rhoi baich ychwanegol arno, o safbwynt ariannol a gweithredol. Bu effaith y gweithredu diwydiannol yn llai yn yr Awdurdod hwn nag mewn mannau eraill, a hynny oherwydd y ganran uchel o staff ar ddyletswydd yn ôl galw a gyflogir gan yr Awdurdod. Serch hynny, llwyddodd yr Awdurdod i ymdrin â'r her yn effeithiol. Mae'r anghydfod parhaus yn dal i fod yn her.

## Mae cynlluniau a threfniadau'r Awdurdod i sicrhau arbedion 2014-15 yn addas i'r diben, wedi'u rheoli'n effeithiol ac yn debygol o gael eu cyflawni

22 Mae rheolwyr cyllid a chyllideb profiadol ac effeithiol ar waith. Ymdrinnir yn dda â'r trefniadau i sicrhau prydlondeb wrth gyflwyno gwybodaeth ariannol, ac mae'r trefniadau hynny'n gweithio'n dda drwy'r holl Awdurdod. Mae'r Awdurdod wedi ystyried yr heriau ariannol ac wedi gwneud tybiaethau rhesymol wrth bennu ei gyllideb ar gyfer 2014-15, gyda data a gwybodaeth gadarn i gefnogi hyn.

23 Mae gan yr Awdurdod fframwaith corfforaethol effeithiol ar gyfer cynllunio ariannol, ac mae'n trin ac yn rheoli arian mewn modd eglur. Drwy ei Bwyllgor Perfformiad, Archwilio a Chraffu (PPACh), a Phwyllgor yr Awdurdod Llawn, mae'n arddangos lefel dda o graffu, trafod a herio yng nghyswllt materion ariannol. Rhoddwyd ystyriaeth gynnar i opsiynau gwario gan gynnal deialog effeithiol rhwng yr Awdurdod a'i awdurdodau lleol cyfansoddol. Mae hyn wedi galluogi'r Awdurdod i bennu cyllideb realistig a chyflawnadwy ar gyfer 2014-15, er bod y rhagolygon yn parhau i fod yn heriol yn y tymor canolig.

## Er bod gwybodaeth ategol ar gael nid yw'r Awdurdod wedi mabwysiadu cynllun ariannol tymor canolig i gefnogi penderfyniadau strategol

24 Mae Cynllun Strategol 2010-2015 yn pennu gweledigaeth a nod clir ar gyfer y gwasanaeth ac wedi'i gefnogi gan amcanion gwella cydlynol a chlir. Mae'r Awdurdod wedi gwella ei gynlluniau gwella ac wedi creu cysylltiadau gwell rhwng cynlluniau gwella a chynlluniau busnes dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Fodd bynnag, nid yw'r Awdurdod wedi mabwysiadu Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC), a phrin yw'r cysylltiadau rhwng cost amcanion gwella a'i gynlluniau ariannol. Ers 2012-13, mae'r tîm uwch reoli wedi bod yn defnyddio proses gynllunio tair blynedd i ganfod cyfleoedd am arbedion posibl a gyfeirir i sylw'r Awdurdod os cynigir eu gweithredu. Mae'r tîm rheoli'n dechrau diweddaru'r cynllun cyfredol i drafod y cyfnod o dair blynedd sy'n dechrau yn 2015-16.

25 Ychydig o gapasiti sydd gan yr Awdurdod o fewn ei swyddogaeth gyllid, ond mae'r capasiti hwnnw'n effeithiol ar y cyfan. Wrth sicrhau rheolaeth gyllidebol ac ariannol effeithiol, ceir rhai meysydd lle byddai cael cynlluniau a strategaeth gliriach o gymorth i'r Awdurdod gynllunio ar gyfer y tymor hwy. Pe bai'r Awdurdod yn mabwysiadu CATC yn ffurfiol, gan gynnwys dadansoddiad sensitifrwydd a data cefnogol, byddai ganddo fframwaith clir er mwyn gwneud penderfyniadau strategol.

26 Mae'r Awdurdod yn gwybod am lefelau cronfeydd wrth gefn a'r ddarpariaeth a wnaed yn erbyn cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd. Y mae wedi gwneud penderfyniadau ynglŷn â'r defnydd o'i gronfa cydraddoli ardollau yn y gorffennol, ond nid oes ganddo bolisi ffurfiol ynghylch cronfeydd yn gyffredinol, ac nid yw ychwaith wedi pennu lefel isafswm ar gyfer cronfeydd. Mae'r Awdurdod mewn sefyllfa ariannol foddhaol ar hyn o bryd, felly byddai pennu ei ymdriniaeth â chronfeydd yn y dyfodol yn weithred fuddiol a chefnogol.

27 Nid oes gan yr Awdurdod bolisi clir ynghylch codi tâl a chynhyrchu incwm. Er mai prin yw'r cyfleoedd i godi am wasanaethau, sydd yn statudol i raddau helaeth, byddai mwy o eglurder ynghylch hyn yn cynorthwyo'r gwasanaeth i gael dealltwriaeth glir o'r costau a'r manteision yn gysylltiedig â gweithredu pob rhan o'r gwasanaeth.

## Mae arbedion effeithlonrwydd wedi eu cyflawni drwy ad-drefnu’r gweithlu, ac er yr arweinyddiaeth a’r cyfarwyddyd clir, mae cyfyngiadau o ran y dogfennau sydd ar gael wedi gwanhau gallu’r Awdurdod i werthuso a defnyddio gwersi a ddysgwyd ar gyfer y dyfodol

### Mae’r Awdurdod wedi gwneud arbedion effeithlonrwydd drwy newidiadau i’r gweithlu dros y tair blynedd diwethaf ac wedi nodi arbedion posibl eraill drwy ad-drefnu’r gweithlu

28 Fel y cofnodwyd yn ein hasesiad cynllunio ariannol ym mis Rhagfyr 2014, bu’r Awdurdod yn llwyddiannus o ran gosod a chytuno ar alldro cywir yn ei reolaeth gyllidebol ariannol ar gyfer yr ychydig flynyddoedd diwethaf a chynnal yr alldro hwnnw. Llwyddodd i wneud hyn drwy arbedion effeithlonrwydd ac arbedion costau cyflogeion. Ni fu hyn ar draul bodloni ei gyfrifoldebau statudol. Mae’r Awdurdod wedi cynnal gwasanaeth effeithiol i’r cymunedau yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru drwy gydol y cyfnod hwn gyda mwy o bwyslais ar waith atal. Ers 1996, mae’r gweithlu wedi lleihau o 510 o gyflogeion llawn amser i 380 o gyflogeion llawn amser.

29 Fel sy’n wir am awdurdodau tân eraill yng Nghymru, cyflog cyflogeion yw’r gyfran fwyaf o wariant. Mae gan y gwasanaeth gymysgedd o staff ar ddyletswydd amser cyflawn, a staff wrth gefn (ar alwad rhan amser) i ddarparu ei wasanaethau ymateb gweithredol. Mae costau staff a ddangosir yn natganiadau o gyfrifon yr Awdurdod ar gyfer 2011-12, 2012-13 a 2013-14 wedi gostwng £881,000 mewn termau real ers 2011-12. Gwelwyd y gostyngiadau mwyaf sylweddol yng nghost staff amser cyflawn. Fodd bynnag, roedd uwch swyddogion wedi asesu bod capasiti cudd yn dal i fodoli mewn trefniadau criwio presennol a’i bod yn bosibl gwneud arbedion pellach.

30 Mae’r cefndir i gyflwyno’r system tair gwylfa yn gymhleth a datblygodd yn dilyn profiad gweithredu newidiadau blaenorol i’r system criwio. Dechreuodd yr Awdurdod drafodaethau ag Undeb y Brigadau Tân gyntaf drwy drafod opsiynau ar gyfer criwio’r pum gorsaf â staff ar ddyletswydd amser cyfan yn ardaloedd Rheoli Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot ym mis Tachwedd 2012. Canolbwyntiodd y drafodaeth ar gadw’r egwyddorion a geir yng nghynllun amodau gwasanaeth y Cyd-gyngor Cenedlaethol. Yn dilyn trafodaethau helaeth dros gyfnod o ddwy flynedd, cytunwyd ag Undeb y Brigadau Tân ar y cynigion i weithredu’r system tair gwylfa ar 14 Mawrth 2014 a fyddai’n dod i rym ar 1 Ebrill 2014. Mae’r cytundeb yn cwmpasu’r pum gorsaf amser cyflawn yng Ngorllewin Abertawe, Canol Abertawe, Treforys, Port Talbot a Chastell-nedd. Dylanwadodd yr amser yr oedd yn ei gymryd i ddod i gytundeb ar yr awydd i weithredu’n gyflym.

31 Nid yw’r cytundeb ag Undeb y Brigadau Tân (y cytundeb) yn effeithio ar griwiau dydd, criwiau sy’n trefnu eu hunain na phersonél ar ddyletswydd ar alwad, ac mae’n nodi y caiff y newidiadau sy’n gysylltiedig â’r cytundeb eu cyflwyno’n raddol yn y gorsafoedd dan sylw. Er y bwriedir cyflwyno’r system yn y pum gorsaf, Port Talbot a Gorllewin Abertawe oedd y gorsafoedd cyntaf lle y rhoddwyd y system hon ar waith.

## Roedd trefniadau gweithredu yn dibynnu gormod ar drafodaeth anffurfiol yn hytrach na chymhwyso egwyddorion rheoli prosiect ffurfiol

32 Ar gyfer yr adolygiad hwn, ceisiwyd tystiolaeth i ddangos bod y broses newid wedi cael ei rheoli gan ddefnyddio egwyddorion rheoli prosiectau ffurfiol. Mantais defnyddio dull gweithredu o'r fath yw ei fod yn galluogi'r Awdurdod i ddangos bod risgiau wedi cael eu rheoli'n effeithiol, y gall gwersi i'w dysgu cael eu defnyddio a'u cynnwys mewn cynlluniau yn y dyfodol ac y gall canlyniadau gweithredu gael eu gwerthuso yn erbyn bwriadau gwreiddiol.

33 Daeth y system tair gwylfa newydd i rym ar 1 Mehefin 2014 ym Mhort Talbot a chafodd ei rhoi ar waith yng Ngorllewin Abertawe ar 1 Ionawr 2015. Mae'r gorsafoedd ar ddyletswydd â sifftiau tair gwylfa yn gweithredu system ar ddyletswydd lle y bydd sifftiau yn cynnwys 24 awr ar ddyletswydd, 24 awr yn rhydd, 24 ar ddyletswydd, 24 yn rhydd, 24 ar ddyletswydd wedyn pedwar diwrnod i ffwrdd. Bydd y patrwm sifftiau yn gylch o naw diwrnod a'r oriau gwaith wythnosol sylfaenol fydd 42 awr.

34 At ddiben rhoi'r system ar ddyletswydd â sifftiau tair gwylfa ar waith, cytunodd Undeb y Brigadau Tân i amrywio'r cyfnod cyfeirio o 17 o wythnosau i 52 o wythnosau. Cyflawnwyd hyn drwy ymrwymo i gytundeb ar y cyd o dan Reoliad 23 (b) o Reoliadau Amser Gwaith 1998 i addasu'r defnydd o Reoliad 4 (3) a 4 (4) er mwyn caniatáu i bersonél weithio chwe awr ychwanegol yr wythnos gan roi cyfanswm o 48 awr. Er bod yr wythnos waith sylfaenol yn parhau i fod yn 42 awr, cytunwyd y bydd yr unigolion hynny sy'n dilyn y system ar ddyletswydd â thair gwylfa yn gweithio 48 awr yr wythnos, a bydd y cyfnod hwn i gyd yn bensiynadwy.

35 Roedd diffyg cynllun gweithredu prosiect clir o ddechrau'r cyd-drafodaethau ar y newid posibl i'r system tair gwylfa. Er i gofnodion gael eu llunio o gyfarfodydd â chynrychiolwyr Undeb y Brigadau Tân lle y trafodwyd y newidiadau posibl i batrymau sifft, ni luniwyd unrhyw gynllun gweithredu na chynllun prosiect cyffredinol. Felly daeth y cyd-drafodaethau ag Undeb y Brigadau Tân yn ganolbwynt y sylw yn hytrach na datblygu cynllun cydlynol ar gyfer y dyfodol yn seiliedig ar achos busnes cadarn, ac ystyried ystod lawn o opsiynau wedi'u costio.

36 Ymddengys fod yr awydd i weithredu ffordd newydd o weithio a chyd-drafod hyn yn llwyddiannus â'r undeb wedi peri i'r Awdurdod esgeuluso'r gwaith o sicrhau bod cynlluniau cyn gweithredu ac ôl-weithredu ar waith gyda cherrig milltir allweddol, dadansoddiad o risg ac asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb. Ar lefel weithredol cafodd trefniadau rheoli prosiectau a gwerthuso gweithredol eu cyflwyno yn ystod y cam gweithredu ar gyfer gorllewin Abertawe: ystyriodd y rhain y newidiadau a brofwyd ym Mhort Talbot.

37 Mae egwyddorion y newid i'r system criwio a geir yn y cytundeb, a'r gwaith dilynol o roi'r system tair gwylfa ar waith ym Mhort Talbot a Gorllewin Abertawe, yn newid sylweddol i'r modd y cyflogir staff yng ngwaith cytrefi mwyaf yr Awdurdod.

38 Roedd cyflymder y gweithredu yn golygu bod y broses o roi'r newidiadau angenrheidiol i strwythur ffisegol Gorsaf Dân Port Talbot ar waith wedi cael ei rhuthro. Rhoddwyd y system gwylfa newydd ar waith cyn cwblhau'r newidiadau angenrheidiol i'r ystafelloedd cysgu. Cwblhawyd y newidiadau i'r ystafelloedd ym mis Hydref 2014, bum mis ar ôl i staff ddechrau gweithio'r patrwm sifft newydd.

39 Prin fu'r ymgynghori â staff unigol yr effeithiodd y newidiadau arnynt. Cynhaliodd yr Awdurdod y rhan fwyaf o'r cyd-drafodaethau â staff drwy ei ddeialog ag Undeb y Brigadau Tân. Hysbyswyd staff o'r newidiadau a gynigiwyd yn hytrach nag ymgynghori â hwy ynghylch manylion y newidiadau i'r system criwio yn y gorsafoedd dan sylw. Gan na luniwyd unrhyw asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar y pryd, nid oedd yn bosibl rhannu unrhyw effaith ganfyddedig ar staff mewn perthynas â chydraddoldebau â'r staff dan sylw. Gwnaeth hyn wanhau ansawdd gweithredu'r patrymau sifft newydd.

## Darparwyd arweinyddiaeth a chyfarwyddyd clir i roi newid ar waith drwy gyd-drafod â chynrychiolwyr y gweithlu, ond nid oes unrhyw drefniadau ar waith i'r Awdurdod adolygu effaith y newid

40 Canfu'r adolygiad hwn fod trefniadau adrodd yn dibynnu gormod ar ddulliau anffurfiol. Cawsom ein hysbysu bod uwch swyddogion yn esbonio'r rhesymeg dros y newidiadau i aelodau'r Awdurdod y tu allan i gyfarfodydd ffurfiol. Roedd hyn yn golygu y byddai craffu ar y newidiadau wedyn yn anodd ac na fyddai'n sicrhau llwybr archwilio digonol o wneud penderfyniadau. Ar y pryd, barn y rheolwyr oedd bod hyn yn fuddiol o ran cael yr undeb i gytuno ar y newidiadau arfaethedig.

41 Nid yw'r Awdurdod wedi cynnal dadansoddiad llawn o'r risgiau y byddai newid i batrymau sifft yn eu hachosi. Dywedodd uwch aelodau o staff wrthym nad oedd unrhyw risg gynhenid ychwanegol yn y newidiadau; fodd bynnag, dywedodd staff gweithredol wrthym fod risg ychwanegol oherwydd y cynnydd mewn achosion lle'r oedd pedwar diffoddwr tân mewn cerbyd, sef rhywbeth a oedd yn digwydd yn amlach o dan y system criwio newydd. Yn hyn o beth, gallai'r gwasanaeth fod wedi defnyddio systemau profedig i ddadansoddi'r risg yn y newidiadau - er enghraifft, pecyn cymorth Gwasanaeth Brys y Gwasanaeth Tân Cenedlaethol. Mae Pecyn Cymorth Gwasanaeth Brys y Gwasanaeth Tân Cenedlaethol yn adnodd sy'n galluogi gwasanaethau tân ac achub i asesu'r risgiau o ddigwyddiadau tân a digwyddiadau eraill a sicrhau ymateb sy'n briodol i'r risg honno a rhagweld effeithiolrwydd y strategaethau lleihau risg a ddefnyddir.

42 Ni chwblhawyd unrhyw asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb cyn i'r newidiadau gael eu rhoi ar waith. Ar ddiwedd mis Ionawr 2015, cawsom ein hysbysu bod asesiad o'r fath yn cael ei gynnal.

43 Cynhaliwyd sesiwn ôl-drafod strwythuredig i staff yr oedd y newidiadau a wnaed ar 24 Medi 2014 yn effeithio arnynt. Fodd bynnag, heb unrhyw adroddiadau ffurfiol, nid yw'n glir pa faterion a godwyd na sut y byddai'r gwasanaeth yn ymateb i faterion a oedd yn datblygu.

44 Mae diffyg system ffurfiol o gyflwyno adroddiadau i'r Awdurdod. Mae'r newid i system tair gwylfa yn fater gweithredol a ddirprwyir yn briodol i'r Prif Swyddog Tân ac felly ni fyddai unrhyw ofyniad ffurfiol i geisio cymeradwyaeth gan yr Awdurdod na'i bwyllgorau amrywiol. Fodd bynnag, byddai elfennau eraill o'r prosiect, gan gynnwys yr arbedion cost posibl a'r effaith ar staff yr effeithid arnynt yn awgrymu y byddai hyn yn fater perthnasol i'r Awdurdod llawn neu i Bwyllgor Perfformiad, Archwilio a Chraffu'r Awdurdod. Cawsom ein hysbysu nad oes unrhyw adroddiadau ffurfiol wedi cael eu cyflwyno i'r Awdurdod. Gwnaed cynigion cychwynnol yng nghyfarfod yr Awdurdod llawn ar 16 Rhagfyr 2013 gan gynrychiolwyr undebau ond ni chyflwynwyd unrhyw adroddiadau wedi hynny.

45 Dywedwyd wrthym yn ystod cyfweliadau fod arbedion effeithlonrwydd posibl i'w gwneud drwy weithredu'r system tair gwylfa. Nodwyd y byddai hyn yn arbed hyd at 35 o gyflogeion llawn amser pe bai'r system yn cael ei chyflwyno yn y pum gorsaf yn ardal Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Gan fod hyn yn arbediad posibl sylweddol iawn, sy'n golygu bron 10 y cant yn llai o'r gweithlu, byddem wedi disgwyl i adroddiad dadansoddiad cost a budd neu rywbeth tebyg gael ei gyflwyno i Bwyllgor Perfformiad, Archwilio a Chraffu'r Awdurdod yn egluro'r modd y câi'r arbedion cynlluniedig eu gwireddu.

## Mae systemau sydd wedi ymsefydlu'n dda yn cynhyrchu gwybodaeth reoli gywir, a ddefnyddir i fod o gymorth i gynllunio gwelliannau, er bod yna rai bylchau yn y wybodaeth am gydraddoldeb

46 Cynhaliom adolygiad o sampl o fesurau perfformiad a systemau data gweithredol. Diben yr adolygiad oedd:

- a rhoi prawf ar y systemau a'r trefniadau sy'n cefnogi cynhyrchu gwybodaeth reoli perfformiad, gan gynnwys dangosyddion perfformiad strategol cenedlaethol, craidd a lleol a ddefnyddir i gefnogi adrodd am welliannau a chynllunio;
- b dilysu a chadarnhau cywirdeb y cyflwyniadau a wnaed i Lywodraeth Cymru o ran dangosyddion Strategol Cenedlaethol a Chraidd a ffurflenni data cysylltiedig; ac
- c adolygu sut mae'r Awdurdod yn nodi tueddiadau a newidiadau mewn perfformiad fel sail ar gyfer cynllunio ac adrodd am welliannau.

47 Cadarnhaodd profion fod gwybodaeth gywir ac amserol yn cael ei chynhyrchu mewn systemau sydd wedi ymsefydlu'n dda ac yn gweithio'n dda. Er nad oes amserlen ysgrifenedig ffurfiol ar gyfer cwblhau'r dangosyddion Strategol Cenedlaethol a Chraidd blynyddol, gwelsom fod y staff yn glir ynghylch amseriad y cyflwyniad ac yn glir ynghylch rolau a chyfrifoldebau. Mae gweithgareddau yn cael eu cydlynu'n effeithiol gan yr uned Perfformiad Strategol a Chynllunio (PS a Ch).

48 Caiff cerrig milltir allweddol eu monitro gan staff PS a Ch i sicrhau eu bod yn cael eu cyrraedd, gan gynnwys dadansoddiad o wybodaeth am ddigwyddiadau trawsffiniol a chanfyddiadau crwner ynghylch ffigurau marwolaethau cysylltiedig â thân.

### Roedd rhai bylchau yn bodoli yn y wybodaeth am gydraddoldeb

49 Ceir mesur cyfyngedig o wybodaeth am gydraddoldeb ac amrywiaeth, sy'n cwmpasu'r holl nodweddion gwarchodedig fel y'u nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Mae rhywfaint o wybodaeth sylfaenol ar gael ac wedi ei chasglu mewn perthynas â data digwyddiadau, a chaiff gwybodaeth sy'n ymwneud â staff ei chynnal a'i chadw gan yr adran adnoddau dynol. Fodd bynnag, nid yw'r data hwn yn yr un o'r ddau faes yn gwbl gynhwysfawr.

50 Mae'r dangosyddion strategol cenedlaethol a chraidd ar gyfer 2013-14 wedi eu mynegi'n gywir. I gyrraedd ein casgliadau fe wnaethom roi prawf ar:

- a Un ar ddeg o ddangosyddion strategol Cenedlaethol, ac o'r rhain canfuwyd bod 11 yn gywir.
- b Pymtheg o ddangosyddion data craidd a/neu leol a chafwyd bod 15 yn gywir.
- c Adolygu prosesau ar gyfer cynhyrchu ffurflenni data cysylltiedig ar gyfer adnoddau dynol, gwybodaeth cronfa ddata am y gweithlu ac eiddo annomestig. Mae'r awdurdod yn wynebu rhai heriau o ran datgan yn gywir nifer yr adeiladau o fewn Canolbarth a Gorllewin Cymru ac mae'n gweithio i fireinio'r gronfa ddata.

51 Roedd yr Awdurdod yn defnyddio canllawiau cyfredol o’r cylchlythyrau tân amrywiol mewn ffordd gywir. Cynhyrchir gwybodaeth am berfformiad mewn ffordd effeithlon. Ceir rhai prosesau â llaw, ond mae’r rhain yn cael eu cefnogi’n gyffredinol gan systemau effeithiol. Mae trefniadau, sydd wedi eu hen sefydlu, yn eu lle ar gyfer cynhyrchu ystadegau manwl gywir i’w cyflwyno i Lywodraeth Cymru (Ystadegau Cymru).

52 Mae staff PS a Ch a staff adrannol hefyd yn glir ynglŷn â’u meysydd cyfrifoldeb, a phwy sy’n gyfrifol am wahanol elfennau o’r data. Ni chodwyd unrhyw ganfyddiad anffafriol o bwys gyda’r data terfynol a gyflwynwyd. Caiff tueddiadau eu nodi yn ystod y flwyddyn, ac mae’r staff yn dangos ymwybyddiaeth o ganfyddiadau rheoli perfformiad parhaus.

## Defnyddir data yn dda fel sail i gynllunio gwelliannau a chefnogi adrodd am berfformiad

53 Mae’r Awdurdod yn defnyddio amrywiaeth cytbwys o wybodaeth reoli i nodi maes gwella a monitro ei berfformiad ar draws amrywiaeth lawn o’i weithgareddau. Defnyddir gwybodaeth am berfformiad i gefnogi barn, strategaethau a chynllunio busnes ac adroddir yn rheolaidd i’r Awdurdod Tân.

## Er y gellid nodi rhai gwelliannau yn 2012-13 roedd Comisiynydd y Gymraeg o'r farn bod y datblygiadau wedi pallu yn ystod 2013-14

54 Crëwyd swydd y Comisiynydd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Disgwylir y bydd pwerau newydd i osod safonau ar sefydliadau yn dod i rym drwy is-ddeddfwriaeth erbyn diwedd 2014. Tan hynny, bydd y Comisiynydd yn parhau i adolygu cynlluniau iaith Gymraeg drwy rinwedd pwerau a etifeddwyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

55 Mae'r Comisiynydd yn gweithio gyda phob awdurdod yng Nghymru i arolygu cynlluniau iaith a rhoi cyngor ar y broses o'u rhoi ar waith. Mae cyfrifoldeb ar awdurdodau i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg yn unol â'r ymrwymiadau yn eu cynlluniau iaith. Mae pob awdurdod yn ymrwymedig i ddarparu adroddiad monitro blynyddol i'r Comisiynydd yn amlinellu ei berfformiad wrth roi'r cynllun iaith ar waith. Mae'r Comisiynydd yn dadansoddi pob adroddiad monitro, yn ymateb yn ffurfiol ac yn casglu gwybodaeth bellach yn ôl yr angen.

56 Mae cynnydd wedi bod yn nifer yr archwiliadau diogelwch tân trwy gyfrwng y Gymraeg ers 2012-2013. Dadansoddodd y Gwasanaeth y bylchau yn y ddarpariaeth Gymraeg gyda'r bwriad o nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella yn dilyn ymgynghoriad ar y safonau newydd yn 2014. Mae'r Gwasanaeth wedi cyflwyno cronfa ddata e-ddysgu, gan gynnwys cyrsiau Cymraeg ar wahanol lefelau. Yn gyffredinol, roedd bu diffyg datblygiad yn ystod 2013-14 oherwydd prinder staff. Mae'r Gwasanaeth yn ymroddedig i ddatblygu ei ddarpariaeth ymhellach yn ystod y flwyddyn newydd.

# Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cwmpasu cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae'r asesiad gwella yn asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi ei waith archwilio ac asesu mewn adroddiad gwella blynyddol cyhoeddedig ar gyfer pob awdurdod (o dan adran 24).

O dan rai amgylchiadau, gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y cyflwynir adroddiad arnynt i'r awdurdod a'r Gweinidogion, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Un o weithgareddau atodol pwysig yr Archwilydd Cyffredinol yw cydgysylltu gwaith asesu a gwaith rheoliadol (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2 – Archwiliad o Gynllun Gwella 2014-15 Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

## Tystysgrif

Ardystiaf fy mod wedi archwilio Cynllun Gwella Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn unol ag adran 17 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) a'm Cod Ymarfer Archwilio.

O ganlyniad i'm harchwiliad, rwyf o'r farn bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(6) i (9) o'r Mesur a'i fod wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

## Priod gyfrifoldebau'r Awdurdod a'r Archwilydd Cyffredinol

O dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Awdurdod baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella sy'n disgrifio ei gynlluniau i gyflawni ei ddyletswyddau i:

- wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni ei swyddogaethau;
- gwneud trefniadau i sicrhau y caiff ei amcanion gwella eu cyflawni; a
- gwneud trefniadau i arfer ei swyddogaethau er mwyn sicrhau y cyrhaeddir unrhyw safon perfformiad a nodir gan Weinidogion Cymru.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi ei Gynllun Gwella cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi, neu ar ôl y cyfryw ddyddiad arall ag y gall Gweinidogion Cymru ei nodi drwy orchymyn.

Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am baratoi'r Cynllun Gwella ac am y wybodaeth a nodir ynddo. Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod ystyried canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

Fel archwilydd yr Awdurdod, mae'n ofynnol i mi, o dan adrannau 17 a 19 o'r Mesur, archwilio'r Cynllun Gwella, ardystio fy mod wedi gwneud hynny a chyflwyno adroddiad i nodi a wyf o'r farn bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau i baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella yn unol â'r gofynion statudol a nodir yn adran 15 a chanllawiau statudol.

## Cwmpas yr archwiliad o'r Cynllun Gwella

At ddibenion fy ngwaith archwilio, ar yr amod bod awdurdod yn bodloni ei ofynion statudol, byddaf yn derbyn ei fod hefyd wedi cydymffurfio â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

Ar gyfer yr archwiliad hwn, nid yw'n ofynnol i mi lunio barn ar gyflawnrwydd na chywirdeb y wybodaeth nac ar b'un a ellir cyflawni'r Cynllun Gwella a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod. Efallai y bydd gwaith asesu arall y byddaf yn ei wneud o dan adran 18 o'r Mesur yn ystyried y materion hyn. Felly, roedd fy archwiliad o Gynllun Gwella'r Awdurdod yn cynnwys adolygu'r cynllun er mwyn nodi a oedd yn cynnwys elfennau a ragnodir mewn deddfwriaeth. Asesais hefyd a oedd y trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r cynllun yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth ac a oedd yr Awdurdod wedi ystyried canllawiau statudol wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

Ni ellir dibynnu ar y gwaith a wnaed gennyf er mwyn cyflwyno adroddiadau a gwneud argymhellion yn unol ag adrannau 17 a 19 o'r Mesur yn unig i nodi pob gwendid neu gyfle i wella.

Huw Vaughan Thomas
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

COPI: Lesley Griffiths, Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth
Lisa Williams, Arweinydd Archwilio Perfformiad

# Atodiad 3 – Archwiliad o asesiad o berfformiad 2013-14 Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

## Tystysgrif

Ardystiaf fy mod wedi archwilio asesiad Awdurdod Tan ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru o'i berfformiad yn 2013-14 yn unol ag adran 17 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) a'm Cod Ymarfer Archwilio.

O ganlyniad i'm harchwiliad, rwyf o'r farn bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adrannau 15(2), (3), (8) a (9) o'r Mesur ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

## Priod gyfrifoldebau'r Awdurdod a'r Archwilydd Cyffredinol

O dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi asesiad bob blwyddyn sy'n disgrifio ei berfformiad o ran:

- cyflawni ei ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau;
- cyflawni'r amcanion gwella y mae wedi'u pennu iddo'i hun;
- drwy gyfeirio at ddangosyddion perfformiad a nodir gan Weinidogion Cymru a dangosyddion perfformiad hunanosodedig; a
- chyrraedd unrhyw safonau perfformiad a nodir gan Weinidogion Cymru a safonau perfformiad hunanosodedig.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi ei asesiad cyn 31 Hydref yn y flwyddyn ariannol sy'n dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r wybodaeth yn ymwneud â hi, neu erbyn y cyfryw ddyddiad arall ag y gall Gweinidogion Cymru ei nodi drwy orchymyn.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod ystyried canllawiau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru wrth gyhoeddi ei asesiad.

Fel archwilydd yr Awdurdod, mae'n ofynnol i mi, o dan adrannau 17 a 19 o'r Mesur, gynnal archwiliad er mwyn nodi a yw'r Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswydd i gyhoeddi asesiad o berfformiad, ardystio fy mod wedi gwneud hynny, a chyflwyno adroddiad i nodi a wyf o'r farn bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau yn unol â'r gofynion statudol a nodir yn adran 15 a chanllawiau statudol.

## Cwmpas yr archwiliad

At ddibenion fy ngwaith archwilio, ar yr amod bod awdurdod yn bodloni ei ofynion statudol, byddaf yn derbyn ei fod hefyd wedi cydymffurfio â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

Ar gyfer yr archwiliad hwn nid yw'n ofynnol i mi lunio barn ar gyflawnrwydd na chywirdeb y wybodaeth. Efallai y bydd gwaith asesu arall y byddaf yn ei wneud o dan adran 18 o'r Mesur yn ystyried y materion hyn. Felly, roedd fy archwiliad o asesiad yr Awdurdod o berfformiad yn cynnwys adolygu cyhoeddiad yr Awdurdod er mwyn nodi a oedd yn cynnwys elfennau a ragnodir mewn deddfwriaeth. Asesais hefyd a oedd y trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r asesiad yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth ac a oedd yr Awdurdod wedi ystyried canllawiau statudol wrth ei baratoi a'i gyhoeddi.

Ni ellir dibynnu ar y gwaith a wnaed gennyf er mwyn cyflwyno adroddiadau a gwneud argymhellion yn unol ag adrannau 17 a 19 o'r Mesur yn unig i nodi pob gwendid neu gyfle i wella.

Huw Vaughan Thomas
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

COPI: Leighton Andrews, Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus
Steve Barry, Rheolwr

# Atodiad 4 – Llythyr Archwilio Blynyddol

Chris Davies
Y Prif Swyddog Tân
Pencadlys Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Heol Llwyn Pisgwydd
Caerfyrddin
SA31 1SP

Annwyl Chris

**Llythyr Archwilio Blynyddol – Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru 2013-14**

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n codi o'm cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel yr Archwilydd Penodedig a'm cyfrifoldebau o ran cyflwyno adroddiad o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

## Roedd yr Awdurdod yn cydymffurfio â'i gyfrifoldebau o ran cyflwyno adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau

Cyfrifoldeb yr Awdurdod yw:

- sefydlu systemau rheoli mewnol i sicrhau bod trafodion yn rheolaidd ac yn gyfreithlon ac i sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cynnal cofnodion cyfrifyddu priodol;
- paratoi Datganiad o Gyfrifon yn unol â'r gofynion perthnasol; a
- sefydlu a pharhau i adolygu trefniadau priodol ar gyfer diogelu cynildeb, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- ddarparu barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Awdurdod i sicrhau cynildeb, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau; a
- chyflwyno tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r cod hwn yn seiliedig ar Safonau Cyflwyno Adroddiadau Ariannol. Ar 29 Medi 2014, cyflwynais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu yn cadarnhau eu bod yn cyflwyno darlun gwir a theg o sefyllfa a thrafodion ariannol yr Awdurdod a'r Gronfa Bensiwn. Mae fy adroddiad yn y Datganiad o Gyfrifon. Cyflwynwyd adroddiad ar y materion allweddol sy'n deillio o'r archwiliad o'r cyfrifon i aelodau'r Pwyllgor Archwilio yn fy adroddiad Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol ar 29 Medi 2014, a bydd adroddiad mwy manwl yn dilyn maes o law.

Rwyf yn fodlon bod gan yr Awdurdod drefniadau priodol ar waith i sicrhau cynildeb, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Awdurdod i sicrhau cynildeb, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi ei seilio ar y gwaith archwilio a wnaethpwyd ar y cyfrifon yn ogystal â dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd yn rhan o'r Asesiad Gwella dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn amlygu meysydd y mae effeithiolrwydd y trefniadau hyn eto i'w ddangos neu y gellid gwneud gwelliannau pan fo'n cyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol.

Cyflwynais dystysgrif yn cadarnhau bod archwiliad y cyfrifon wedi ei gwblhau ar 29 Medi 2014.

Disgwylir i'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2013-14 ar hyn o bryd fod yn unol â'r ffi y cytunwyd arno a nodir yn yr Amlinelliad Archwilio Blynyddol.

Yn gywir

**Anthony Barrett, Yr Archwilydd Penodedig**

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru